

201- Rhif (Cy.)

PRIFFYRDD, CYMRU

Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrrd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201-

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)

Mae'r Cynllun hwn yn awdurdodi adeiladu darn newydd o draffordd yr M4 i'r de o Gasnewydd sy'n cychwyn o draffordd bresennol yr M4 ym Magwyr drwodd i draffordd bresennol yr M4 yng Nghas-bach. Mae hefyd yn awdurdodi adeiladu ffyrdd ymuno ac ymadael cysylltiol. Mae'n awdurdodi ymhellach adeiladu pontydd gan Weinidogion Cymru dros ddyfroedd mordwyol Dociau Casnewydd, Afon Wysg ac Afon Ebwy fel rhan o ffordd arbennig.

201- Rhif (Cy.)

PRIFYRDD, CYMRU

Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201-

Gwnaed 201-

Yn dod i rym 201-

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer pwerau a roddir gan adrannau 16, 17, 19 a 106 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1), a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Cynllun hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201- a daw i rym ar ***** 201*.

2. Yn y Cynllun hwn:-

Gwneir pob mesuriad pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

i. ystyr "y Draffordd" (*the Motorway*) yw ffordd arbennig ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Cynllun hwn;

ii. ystyr "ffyrdd cysylltu" (*connecting roads*) yw ffyrdd arbennig ar hyd llwybrau a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Cynllun hwn;

iii. ystyr "y plan a adnewyd" (*the deposited plan*) yw'r ffolio planiau sy'n dwyn y rhif HA16/1

WG1, sy'n cynnwys 8 plan safle wedi eu rhwymo gyda'i gilydd ac sy'n dwyn y rhifau 1 i 8 yn eu trefn ac a farciwyd "Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201-" a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac a adneuwyd (cyf qA1174612) yn Llywodraeth Cymru, yr Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;

iv. ystyr "y ffyrdd arbennig" ("the special roads") yw'r Draffordd a phob ffordd gysylltu.

Ffyrdd arbennig a phontydd

3. Awdurdodir Gweinidogion Cymru i ddarparu'r ffyrdd arbennig i'w defnyddio gan draffig yn Nosbarthiadau I a II yn unig o'r dosbarthiadau traffig a nodir yn Atodlen 4 i Ddeddf Priffyrdd 1980.

4. Nodir llinell ganol pob un o'r ffyrdd arbennig â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

5. Daw pob un o'r ffyrdd arbennig yn gefnffordd ar y dyddiad y daw'r Cynllun hwn i rym.

6. Awdurdodir Gweinidogion Cymru i adeiladu dros ddyfroedd mordwyol Dociau Casnewydd, Afon Wysg ac Afon Ebwy y pontydd a bennir yn Atodlen 3 i'r Cynllun hwn fel rhan o ffordd arbennig.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiedig: 201-

RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1980 p.66.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

(mae cyfeiriadau at blaniau safle yn yr Atodlenni yn gyfeiriadau at blaniau safle sy'n ffurfio rhan o'r plan a adnewwyd)

ATODLEN 1

LLWYBR Y DRAFFORDD

Mae llwybr y Draffordd tua 17.76 cilometr o hyd, o'r pwynt ar blân safle 2 a farciwyd ag A ar draffordd yr M4, tua 15 metr i'r de-orllewin o danbont Heol Santes Ffraid, i'r gogledd o Fagwyr yn Sir Fynwy hyd at bwynt ar blân safle 7 a farciwyd â B ar draffordd yr M4, tua 137 metr i'r dwyrain o drosbont Pound Hill, Coedcernyw yn Ninas Casnewydd.

ATODLEN 2

LLWYBRAU'R FFYRDD CYSYLLTU

Mae llwybrau'r ffyrdd cysylltu fel a ganlyn:-

(1) Cyffordd 23 Rogiet – Plan Safle 1

Llwybr (ffordd ymuno) y rhoddwyd y rhif 1 iddo ar blân safle 1 i gysylltu cerbyttffordd gylchu newydd â cherbyttffordd traffordd yr M48 tua'r dwyrain yn Rogiet, Sir Fynwy.

Llwybr (ffordd ymuno) y rhoddwyd y rhif 2 iddo ar blân safle 1 i gysylltu cerbyttffordd gylchu newydd â cherbyttffordd traffordd yr M4 tua'r dwyrain yn Rogiet, Sir Fynwy.

Llwybr (ffordd ymuno) y rhoddwyd y rhif 3 iddo ar blân safle 1 i gysylltu cerbyttffordd gylchu newydd â'r ffordd ymuno bresennol tua'r gorllewin sy'n arwain at gerbyttffordd traffordd yr M4 tua'r gorllewin yn Rogiet, Sir Fynwy.

Llwybr (ffordd ymadael) y rhoddwyd y rhif 4 iddo ar blân safle 1 o gerbyttffordd traffordd yr M4 tua'r dwyrain tuag at y gerbyttffordd gylchu newydd yn Rogiet, Sir Fynwy.

Llwybr (ffordd ymadael) y rhoddwyd y rhif 5 iddo ar blân safle 1 o gerbyttffordd bresennol traffordd yr M4 tua'r gorllewin at y gefnffordd newydd i'r gogledd o Fagwyr, Sir Fynwy.

(2) Cyffordd Glan-Llyn â Queensway yr A4810 – Plan Safle 4

Llwybr tua 444 metr o hyd, a cherbyffordd gylchu newydd tua 392 metr o hyd, o bwynt ar blun safle 4 a farciwyd ag C ar y Draffordd at bwynt ar blun safle 4 a farciwyd â D wrth gylchfan bresennol Queensway yr A4810 tua 400 metr i'r gorllewin o Waith Dur Llanwern.

Pedwar llwybr (ffyrdd ymuno ac ymadael) y rhoddwyd y rhifau 6, 7, 8 a 9 iddynt yn eu trefn ar blun safle 4 i gysylltu'r Draffordd â cherbyffordd gylchu newydd tua 366 metr i'r gogledd-orllewin o Is-orsaf Whitson.

(3) Cyffordd Docks Way – Plan Safle 5

Llwybr tua 916 metr o hyd, a chylchfan newydd tua 190 metr o hyd o bwynt ar blun safle 5 a farciwyd ag E ar Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 442 metr i'r dwyrain o gylchfan Docks Way hyd at bwynt ar blun safle 5 a farciwyd ag F tua 487 metr i'r dwyrain o Afon Ebwy yn Docks Way, Casnewydd.

Llwybr tua 187 metr o hyd, a cherbyffordd gylchu newydd tua 332 metr o hyd o bwynt ar blun safle 5 a farciwyd ag F ar y gylchfan newydd hyd at bwynt ar blun safle 5 a farciwyd ag G ar y gerbyffordd gylchu newydd tua 289 metr i'r dwyrain o Afon Ebwy yn Docks Way, Casnewydd.

Llwybr (ffordd ymadael) y rhoddwyd y rhif 10 iddo ar blun safle 5 o gerbyffordd y Draffordd tua'r gorllewin i'r gerbyffordd gylchu newydd yn Docks Way, Casnewydd.

Llwybr (ffordd ymuno) y rhoddwyd y rhif 11 iddo ar blun safle 5 o'r gylchfan newydd i gerbyffordd y Draffordd tua'r dwyrain yn Docks Way, Casnewydd.

Dau lwybr (ffordd ymuno a ffordd ymadael) y rhoddwyd y rhifau 12 a 13 iddynt yn eu trefn ar blun safle 5 i gysylltu'r Draffordd â'r gerbyffordd gylchu newydd tua 289 metr i'r dwyrain o Afon Ebwy yn Docks Way, Casnewydd.

(4) Cyffordd 29 Cas-bach – Plan Safle 7

Llwybr (ffordd ymadael) y rhoddwyd y rhif 14 iddo ar blun safle 7 o'r Draffordd i'r de o'r A48 i gerbyffordd y gefnffordd newydd tua'r gorllewin i'r gogledd o'r A48 yng Nghas-bach, Casnewydd.

Llwybr (ffordd ymuno) y rhoddwyd y rhif 15 iddo ar blun safle 7 o gerbyffordd y gefnffordd newydd tua'r gorllewin i gerbyffordd traffordd yr M4 tua'r gorllewin yng Nghas-bach, Casnewydd.

Llwybr (ffordd ymuno) y rhoddwyd y rhif 16 iddo ar blan safle 7 o gerbyttfordd y gefnffordd newydd tua'r dwyrain i gerbyttfordd y Draffordd tua'r dwyrain yng Nghas-bach, Casnewydd.

Llwybr (ffordd ymadael) y rhoddwyd y rhif 17 iddo ar blan safle 7 o gerbyttfordd traffordd yr M4 tua'r dwyrain i gerbyttfordd y gefnffordd newydd tua'r dwyrain yng Nghas-bach, Casnewydd.

DEDDF PRIFFYRDD 1980

CYNLLUN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48 (FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) 201-

A

GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH) 201-

A

GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48 (FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) A CHEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH) (FFYRDD YMYL) 201-

Mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu gwneud y Cynllun a'r Gorchmynion a ganlyn:-

1. Cynllun o dan adrannau 16, 17, 19 a 106 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd:-

(1) yn eu hawdurdodi i darparu, i'w defnyddio gan draffig yn Nosbarthiadau I a II o'r dosbarthiadau traffig a nodir yn Atodlen 4 i Ddeddf Priffyrdd 1980 yn unig -

(a) ffordd arbennig ("y draffordd") tua 17.76 cilometr o hyd, o bwynt ar draffordd yr M4, tua 15 metr i'r de-orllewin o danbont Heol Santes Ffraid, i'r gogledd o Fagwyr yn Sir Fynwy hyd at bwynt ar draffordd yr M4, tua 137 metr i'r dwyrain o drosbont Pound Hill, Coedcernyw yn Ninas Casnewydd; a

(b) ffyrdd arbennig i gysylltu'r draffordd â phriffyrdd eraill yn Rogiet a Magwyr, Sir Fynwy a Glan-Llyn, Docks Way a Chas-bach, Casnewydd;

(2) yn eu hawdurdodi i adeiladu, fel rhan o'r draffordd, bontydd dros ddyfroedd mordwyol Dociau Casnewydd, Afon Wysg ac Afon Ebwy; a

(3) yn darparu i'r ffyrdd arbennig newydd ddod yn gefnffordd ar y dyddiad y daw'r Cynllun i rym.

2. Gorchymyn o dan adrannau 10 a 41 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd:-

(1) yn darparu bod ffyrdd y maent yn bwriadu eu hadeiladu ar hyd y llwybrau a ganlyn yn dod yn gefnffyrdd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym –

(a) llwybr tua 2.64 cilometr o hyd, gan ddechrau o bwynt tua 14 metr i'r de o Bencroft Lane, Llanfihangel ger Rogiet, Sir Fynwy ac yn ymestyn tua'r gogledd am ryw 140 metr cyn parhau tua'r gorllewin hyd at bwynt tua 70 metr i'r gorllewin o danbont Heol Santes Ffraid i'r gogledd o Fagwyr, Sir Fynwy.

(b) llwybr tua 74 metr i'r dwyrain o gyffordd y B4245 a Bencroft Lane, Llanfihangel ger Rogiet, Sir Fynwy ac sy'n dechrau â chylchfan newydd o ryw 130 metr o hyd ac yn parhau wedyn tua'r gorllewin am bellter o ryw 169 metr i uno â system gylchu newydd o ryw 428 metr o hyd.

(c) llwybr tua 1.66 cilometr o hyd sy'n dechrau o bwynt a tuag 987 metr i'r dwyrain o drosbont Pound Hill, Coedcernyw, Casnewydd ac yn ymestyn tua'r de-orllewin hyd at bwynt ar ffordd ymadael traffordd yr M4 tua'r gorllewin sy'n arwain at draffordd yr A48(M) tua 908 metr i'r gogledd-ddwyrain o drosbont Coal Pit Lane, Cas-bach, Casnewydd.

(d) llwybr tua 1.55 cilometr o hyd sy'n dechrau o bwynt tua 307 metr i'r dwyrain o drosbont Pound Hill, Coedcernyw, Casnewydd ac yn ymestyn tua'r de-orllewin hyd at bwynt ar gerbyttffordd traffordd yr A48(M) tua'r dwyrain tua 397 metr i'r gogledd-ddwyrain o drosbont Coal Pit Lane, Cas-bach, Casnewydd; ac

(e) llwybr tua 431 metr o hyd sy'n dechrau wrth bwynt tua 494 metr i'r de-ddwyrain o isffordd The Elms i'r gogledd o Fagwyr ac sy'n parhau tua'r de-orllewin yn gyffredinol hyd at bwynt ar y B4245 tua 612 metr i'r de-orllewin o Bencroft Lane, Llanfihangel ger Rogiet.

(f) llwybr tua 630 metr o hyd sy'n dechrau wrth bwynt tua 494 metr i'r de-ddwyrain o isffordd The Elms i'r gogledd o Fagwyr ac sy'n parhau tua'r gogledd-orllewin yn gyffredinol hyd at bwynt tua 91 metr i'r gorllewin o'r ffordd ddiddosbarth o'r enw The Elms i'r gogledd o Fagwyr.

(g) dau lwybr i gysylltu'r gefnffordd newydd ag ochr ddwyreiniol system gylchu Queensway yr A4810 wrth Gyffordd 23A traffordd yr M4 ym Magwyr.

(h) llwybr tua 146 metr o hyd sy'n dechrau wrth bwynt ar gerbyttffordd y B4596 tua'r gorllewin tua 710 metr i'r dwyrain o Dwneli Bryn-glas hyd at bwynt ar gerbyttffordd yr M4 tua'r gorllewin tua 567 metr i'r dwyrain o Dwneli Bryn-glas

(i) llwybr tua 130 metr o hyd sy'n dechrau wrth bwynt ar gerbyttffordd traffordd yr M4 tua'r dwyrain tua 567 metr i'r dwyrain o Dwneli Bryn-glas hyd at bwynt ar gerbyttffordd y B4596 tua'r dwyrain tua 698 metr i'r dwyrain o Dwneli Bryn-glas.

(2) yn darparu y daw'r darnau a ganlyn o briffordd yn gefnffordd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym –

(a) darn o'r B4245 688 metr o hyd o bwynt tua 74 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd bresennol â Bencroft Lane, Llanfihangel ger Rogiet, Sir Fynwy hyd at bwynt tua 609 metr i'r de-orllewin o Bencroft Lane, Llanfihangel ger Rogiet, Sir Fynwy.

(b) system gylchu gyfan y B4596 wrth Gyffordd 25 traffordd yr M4 yng Nghaerllion, Casnewydd.

(c) y B4596 o'i chyffordd â'r system gylchu wrth Gyffordd 25 traffordd yr M4 yng Nghaerllion, Casnewydd tua'r gorllewin am bellter o ryw 485 metr.

(d) y B4596 o bwynt tua 482 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â system gylchu Cyffordd 25 traffordd yr M4 yng Nghaerllion, Casnewydd tua'r dwyrain hyd at ei chyffordd â'r system gylchu a enwyd.

3. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 18, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd:

(1) yn eu hawdurdodi-

- a. i wneud gwaith i wella priffyrdd;
- b. i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- c. i adeiladu priffyrdd newydd;
- d. i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd;
- e. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd, ac

- f. i adeiladu darnau o briffordd dros dro;

oll ar lwybr y draffordd, traffordd yr M4 a'r cefnffyrdd newydd a grybwyllwyd uchod, neu yn eu cyffiniau; a

(2) yn darparu ar gyfer trosglwyddo pob priffordd newydd i naill ai Cyngor Sir Fynwy neu Gyngor Dinas Casnewydd fel yr awdurdod priffyrdd a bennir ar eu cyfer yn y Gorchymyn o'r dyddiad y bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Cynghorau eu bod wedi'u cwblhau a'u bod ar agor i draffig trwodd.

Gellir archwilio copïau:

- o'r Cynllun drafft, y Gorchmynion a'r planiau perthynol,
- o'r datganiad esboniadol a'r hysbysiad cyhoeddus,
- o'r Ddatganiad Amgylcheddol a Chrynodeb Annhechnegol,
- o'r Hysbysiadau Amgylcheddol,
- o'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol
- o'r Adroddiad ar Asesiad Cyfnod 3 y Cynllun

yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol rhwng 10 Mawrth 2016 a 4 Mai 2016, yn y manau a ganlyn:

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ

Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga, Sir Fynwy. NP15 1GA

Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Cymru 1, Magwyr, Sir Fynwy. NP26 3DG

Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Godfrey Rd, Casnewydd. NP20 4UR

Llyfrgell Ganolog Casnewydd, John Frost Square, Casnewydd. NP20 1PA

CAIFF UNRHYW BERSON wrthwynebu gwneud y Cynllun neu'r naill neu'r llall o'r Gorchmynion drwy hysbysu'r Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1174612 a chan ddatgan seiliau'r gwrthwynebiad a hynny erbyn 4 Mai 2016 fan bellaf. **Sylwer:** Os ydych yn dymuno gwrthwynebu neu gefnogi, bydd y tîm prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac fe all y bydd angen inni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir inni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Er hynny, ni fyddwn yn datgelu'ch manylion personol ond pan fo hynny'n

angenrheidiol i'n galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt. Pan fydd Cynllun Traffyrdd neu Gynllun Cefnffyrdd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei chopio i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn Llyfrgell yr YC a bydd ar gael i'r cyhoedd

Gellir gweld copi o'r Cynllun drafft, y Gorchymyn Llinell drafft a'r Hysbysiad yn www.llyw.cymru (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Statudol Lleol Drafft', 'Gorchmynion Llinell y Ddeddf Priffyrdd').

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft a'r Hysbysiad yn www.llyw.cymru (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Anstatudol Drafft', 'Gorchmynion Ffyrdd Ymyl y Ddeddf Priffyrdd a Gorchmynion Prynu Gorfodol').

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print brasach oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**HYSBYSIAD AM Y DATGANIAD
AMGYLCHEDDOL**

GWEINIDOGION CYMRU

**CYNLLUN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD
23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R
GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A
FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR
M48 (FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23
(MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) A
CHEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN
(MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH)**

**ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL
HYSBYSIAD AM DDATGANIAD
AMGYLCHEDDOL YN UNOL AG ADRAN 105B
O DDEDDF PRIFFYRDD 1980 (FEL Y'I
DIWYGIWYD)**

**ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER
SAFLEOEDD EWROPEAIDD
HYSBYSIAD AM DDATGANIAD I HYSBYSU
ASESIAD PRIODOL YN UNOL AG ADRAN 61 O
REOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A**

RHYWOGAETHAU 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried rhoi prosiect ar waith i adeiladu adran newydd o draffordd yr M4 i'r de o Gasnewydd, gan gynnwys gwaith ar-lein ac all-lein a gwelliannau i'r ffyrdd ymyl. Mae'r prosiect hwn yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwyddeb 2011/92/EU y GE. Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu eu bod wedi cyhoeddi Datganiad Amgylcheddol.

Mae'r prosiect hefyd yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (AGSE) yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ac Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EC. Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn hysbysu eu bod wedi cyhoeddi Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol.

Gellir archwilio copïau o'r Datganiad Amgylcheddol (DA) a'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (DHAP) yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol ar gyfer busnes yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn y mangreoedd a ganlyn:

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd, CF10 3NQ;

Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga,
Sir Fynwy. NP15 1GA
Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Cymru 1,
Magwyr, Sir Fynwy. NP26 3DG

Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig,
Godfrey Rd, Casnewydd. NP20 4UR

Llyfrgell Ganolog Casnewydd, John Frost Square,
Casnewydd. NP20 1PA

Gellir prynu copïau o'r DA a'r DHAP oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP (pris ar gais):

Cyfrwl 1 y DA (Prif Testun);
Cyfrwl 2 y DA (Ffigurau);
Cyfrwl 3 y DA (Atodiadau Technegol);
Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (DHAP).

Gellir prynu copïau electronig o'r DA a'r DHAP am bris o £20.

Mae copi electronig o'r Crynodeb Annhechnegol wedi ei gyhoeddi ar-lein yn www.llyw.cymru/trafnidiaeth.

Dylai unrhyw sylwadau am y prosiect a/neu'r Datganiad Amgylcheddol a/neu'r Datganiad i Hysbysu Aseiad Priodol gael eu cyflwyno mewn ysgrifen i Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad ym Mharc Cathays a roddir uchod a dylent gyrraedd erbyn 4 Mai 2016 fan bellaf.

Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried pob sylw ysgrifenedig cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r prosiect ai peidio a hynny gydag addasiadau neu hebddynt.

Gellir cael gwybodaeth bellach am y prosiect, y Datganiad Amgylcheddol, y Datganiad i Hysbysu Aseiad Priodol neu'r hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print brasach oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
ar ran Gweinidogion Cymru

HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD

GWEINIDOGION CYMRU

CYNLLUN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48 (FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) A CHEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH)

**ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL
HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD YN UNOL
AG ADRAN 105B(1) O DDEDDF PRIFFYRDD
1980 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER
SAFLEOEDD EWROPEAIDD
HYSBYSIAD AM DDATGANIAD I HYSBYSU
ASESIAD PRIODOL YN UNOL AG ADRAN**

**61 O REOLIADAU CADWRAETH
CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU
2010**

Mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu eu bod wedi penderfynu bod y cynnig ar gyfer adeiladu adran newydd o draffordd yr M4 i'r de o Gasnewydd gan gynnwys gwaith ar-lein ac all-lein a gwelliannau i ffyrdd ymyl, sy'n brosiect perthnasol o fewn ystyr Adran 105A(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) i'w wneud yn ddarostyngedig i Asesiad Effaith Amgylcheddol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwyddeb 2011/92/EU y GE.

Maent hefyd yn hysbysu bod Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (AGSE) o dan Adran 61 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ac Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EC yn ofynnol.

Dylai unrhyw sylwadau am yr hysbysiad hwn gael eu hanfon i Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a roddir isod. Dylai unrhyw sylwadau gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl a dod i law yn Llywodraeth Cymru erbyn 4 Mai 2016.

Gellir cael gwybodaeth bellach am y prosiect ac am yr hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print brasach oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL

Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru
ar ran Gweinidogion Cymru

**CYNLLUN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD
23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R
GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A
FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR
M48 (FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23
(MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) A
CHEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN
(MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH)**

ARDDANGOSFA GYHOEDDUS O GYNIGION Y

GORCHYMYN DRAFFT

HYSBYSIR DRWY HYN bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu cynnal arddangosfa gyhoeddus o'r Gorchmynion drafft ar gyfer y cynllun a enwir uchod. Cynhelir yr arddangosfa yn y lleoliadau a ganlyn ar y dyddiadau a'r amseroedd a ganlyn:

Dydd Gwener 11 Mawrth 2016 o 11:00am hyd 7:30pm a dydd Sadwrn 12 Mawrth 2016 o 10:00am hyd 4:00pm yn Sefydliad Lysaght, Orb Drive, Casnewydd, NP19 0HE.

Dydd Iau 17 Mawrth 2016 a dydd Gwener 18 Mawrth 2016 yn Eglwys y Bedyddwyr Ebenezer, y Sgwâr, Magwyr, Cil-y-coed NP26 3HY o 11:00am hyd 7:30pm.

Dydd Llun 21 Mawrth 2016 a dydd Mawrth 22 Mawrth 2016 yng Nghanolfan Gymunedol Trefonnen, St Mary's Road, Trefonnen, NP18 2DD o 11:00am hyd 7:30pm.

Dydd Mercher 23 Mawrth 2016 a dydd Iau 24 Mawrth 2016 yn Neuadd y Pentref Cas-bach, Marshfield Road, Cas-bach, Caerdydd, CF3 3UW o 11:00am hyd 7:30pm.

Dydd Mercher 30 Mawrth 2016 a dydd Iau 31 Mawrth 2016 yn Neuadd y Dref Caerllion, Church Street, Caerllion, Casnewydd, NP18 1AW o 11:00am hyd 7:30pm.

Bydd copïau o'r Gorchmynion drafft ynghyd â'u dogfennau cysylltiedig ar gael yn yr Arddangosfa a byddant hefyd ar gael i edrych arnynt yn y lleoedd a ganlyn o 10 Mawrth 2016:

- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ
- Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga, Sir Fynwy. NP15 1GA
- Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Cymru 1, Magwyr, Sir Fynwy. NP26 3DG
- Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, Heol Godfrey, Casnewydd. NP20 4UR
- Llyfrgell Ganolog Casnewydd, Sgwâr John Frost, Casnewydd. NP20 1PA

Dylai unrhyw bersonau a hoffai i'w barn am y cynigion gael ei hystyried ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, yn y cyfeiriad ym Mharc Cathays uchod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1174612 erbyn 4 Mai 2016.

Noder: Os ydych yn dymuno mynegi barn, bydd y Tîm Prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw. Pan fo Cynllun Traffordd neu Gefnffordd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), caiff pob gohebiaeth ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru